O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif. 21 (Cy. 7)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Abergwaun, Sir Benfro) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *6 Ionawr 2012* |
| *Yn dod i rym* | *16 Ionawr 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei wahardd a'i gyfyngu oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Ionawr 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Abergwaun, Sir Benfro) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012.

**2.**—1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00.01 o'r gloch ar 16 Ionawr 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o'r gefnffordd yn Abergwaun, yn Sir Benfro, sy'n ymestyn o bwynt wrth y terfyn cyflymder presennol o 20 mya, wrth ei chyffordd ag Old Newport Road yng Nghwm Abergwaun, hyd at bwynt 435 metr i'r dwyrain o ymyl ddwyreiniol y fynedfa i Fferm Parc y Morfa.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd, yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 ar waith.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3, 4 a 5 yn gymwys ond yn ystod yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y mae'n cyfeirio atynt yn weithredol.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 6 Ionawr 2012

*G R Morgan*
**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.